Health and Care Research Wales Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Offer rhagfynegi risg cyn llawdriniaeth sy'n rhagfynegi risg oedolion sy'n cael llawdriniaeth o forbidrwydd: Adolygiad o'r Dystiolaeth

Mehefin 2025

Alesha Wale, Toby Ayres, Hannah Shaw, Salina Khatoon, Claire Morgan, Amy Fox-McNally, Kirsty Little, Nathan Bromham, Jessica Williams, Jacob Davies, Rhiannon Tudor Edwards, Praveena Pemmasani, Claire Dunstan, Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis

## Cefndir

Mae offer rhagfynegi risg yn chwarae rhan hanfodol mewn gofal cyn llawdriniaeth drwy amcangyfrif pa mor debygol yw canlyniadau negyddol neu gymhlethdodau. Mae hyn yn arbennig o werthfawr mewn **lleoliadau risg isel megis canolfannau llawfeddygol.**

Nod yr adolygiad hwn oedd:

- nodi a mapio'r dystiolaeth ar gyfer **14 offeryn rhagfynegi risg cyn llawdriniaeth wedi'u dilysu** sy'n cael eu defnyddio mewn lleoliadau llawfeddygol dewisol a di-frys ar hyn o bryd yng Nghymru
- adolygu a dewis offer yr ystyrir eu bod fwyaf priodol yng nghyd-destun canolfannau llawfeddygol

**Datblygwyd yr astudiaeth hon mewn cydweithrediad â Gofal wedi'i Gynllunio Cymru.**

## Sylfaen y Dystiolaeth

Cyhoeddwyd yr astudiaethau a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad hwn rhwng 1999 a 2024.

I ddechrau, cafodd cyfanswm o **118 o astudiaethau dilysu allanol** eu nodi mewn perthynas â 12 offeryn rhagfynegi risg.

Roedd **llawer o amrywiaeth rhwng y 118 astudiaetho** ran:

- **pa arbenigeddau llawfeddygol** y mae'r offer rhagfynegi risg yn berthnasol iddyn nhw
- **sut mae cymhlethdodau'n cael eu diffinio**
- **pa fesurau sy'n cael eu defnyddio** i bennu gallu rhagfynegol offeryn

**Mae hyn yn gwneud cymariaethau uniongyrchol yn heriol iawn.**

**4**

Cafodd **pedwar** offeryn eu dewis i'w dadansoddi'n fwy manwl.
Nodwyd cyfanswm o **76 o astudiaethau** mewn perthynas â'r pedwar offeryn rhagfynegi risg hyn.

## Cyfyngiadau'r Dystiolaeth

- **Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth ar allu offer rhagfynegi risg i ddewis cleifion sy'n addas ar gyfer canolfannau llawfeddygol.**
- Mae'n **aneglur** a allai canfyddiadau'r astudiaethau fod **yn berthnasol i'r DU.**
- **Ni chafodd ansawdd yr astudiaethau eu harfarnu**, felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau.
- Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth sy'n asesu gallu rhagfynegol dwy offeryn: Cyfrifiannell Risg Carlisle, a Sgôr Risg Darbodus yr Archwiliad Laparotomi Argyfwng Cenedlaethol.

**Ni nodwyd unrhyw offeryn** a ragfynegodd gymhlethdodau'n ddigonol ar gyfer pob **arbenigedd llawfeddygol**. Oherwydd hyn, **hwyrach y bydd rhai offer yn fwy addas ar gyfer mathau penodol o lawdriniaethau nag eraill**, neu efallai y bydd angen **cyfuniad o offer** i asesu lefel risg unigolyn yn ddigonol.

## Prif Ganfyddiadau

**Ni ddylai unrhyw offeryn gael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun i wneud penderfyniadau clinigol**

| | Nifer yr astudiaethau dilysu allanol a gallu rhagfynegol yn ôl math o lawdriniaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Math o Lawdriniaeth** | **ACS NSQIP** | **ASA System Ddosbarthu** | **P-POSSUM** | **RCRI** |
| **Clust, trwyn a gwddf** | | | 1 (Gweddol) | |
| **Cyffredinol** | 12 (Gwael iawn neu wael) | 1 (Gwael iawn neu wael) | 5 (Gwael iawn neu wael) | |
| **Gynaecoleg** | 1 (Gwael iawn neu wael) | | 1 (Gwael iawn neu wael) | |
| **Cymysg (sawl math o lawdriniaeth)** | 3 (Da neu ardderchog) | 2 (Gweddol) | | 9 (Gweddol) |
| **Niwrolawdriniaeth** | 4 (Gwael iawn neu wael) | | | |
| **Orthopedig** | 6 (Gwael iawn neu wael) | 3 (Gwael iawn neu wael) | | 2 (Gweddol) |
| **Plastig** | 2 (Gweddol) | | | |
| **Wroleg** | 3 (Gwael iawn neu wael) | 1 (Gwael iawn neu wael) | | 1 (Gwael iawn neu wael) |
| **Thorasig** | 1 (Gweddol) | | | |
| **Fasgwlaidd** | 1 (Gwael iawn neu wael) | 2 (Gwael iawn neu wael) | | 1 (Gweddol) |

**Gallu rhagfynegol ar gyfer cymhlethdodau cymysg**

- Gwael iawn neu wael
- Gweddol
- Da neu ardderchog

Mae lefel y *'gallu rhagfynegol ar gyfer cymhlethdodau cymysg'* yn dangos gallu pob offeryn i ragweld **dau neu fwy o gymhlethdodau a allai godi o lawdriniaeth benodol.**

**Nifer yr astudiaethau dilysu allanol ar gyfer pob offeryn**

Mae astudiaeth ddilysu allanol yn asesu pa mor dda y mae model rhagfynegi'n perfformio.

Roedd y mathau o lawdriniaeth yn amrywio yn ôl astudiaeth. I gael gwybod **pa fathau o lawdriniaeth a gafodd eu cynnwys yn y setiau data cymysg**, darllenwch yr adroddiad llawn neu'r crynodeb clinigol isod.

**Mae angen ymchwil pellach sy'n defnyddio dulliau cyson**
i gael dealltwriaeth well o allu rhagfynegol offer rhagfynegi risg.

Mae **crynodeb clinigol** o ganfyddiadau'r astudiaeth hon wedi'i gynhyrchu i **roi canllawiau ar ddefnyddio'r offer rhagfynegi risg hyn**, ac mae ar gael yma.

Mae'r adolygiad llawn, **gan gynnwys ystyriaethau economaidd**, ar gael yma:
https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2025.06.27.25330118v1